Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Eifion Wyn
# Porthmadog
# Gwynedd
# LL49 9NU

# Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Eifion Wyn yn ysgol gynradd yn nhref Porthmadog. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. O flwyddyn tri i fyny, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ar hyn o bryd, mae 214 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 26 o ddisgyblion oed meithrin rhan amser. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn wyth dosbarth.

Daw 77% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ychydig o ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae cyfartaledd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros dair blynedd oddeutu 14%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae 21% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2010 a phenodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Eifion Wyn yn 2016-2017 yw £3,622. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Eifion Wyn yn y 68ain safle o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu o'u man cychwyn
- medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu
- medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn gwneud cynnydd cyson wrth gaffael eu medrau ar draws y cwricwlwm
- safonau ymddygiad yn dda iawn yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac mae bron pob disgybl yn ymroi'n dda i'w tasgau
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog wrth gynllunio'n fwriadus er mwyn diwallu anghenion personol ac addysgol y disgyblion
- ansawdd yr addysgu yn dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau
- y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn nodwedd gref o'i gwaith

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn, effeithiol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer gwella'r ysgol
- aelodau'r uwch dim rheoli a'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn fedrus ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda
- aelodau'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth fuddiol i fywyd a gwaith yr ysgol
- diwylliant o hunanarfarnu wedi gwreiddio'n llwyr ym mywyd yr ysgol gyda gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod gan yr arweinwyr a'r staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r cryfderau a'r mwyafrif o'r meysydd sydd angen eu gwella
- y cynllun datblygu yn nodi amcanion penodol, ynghyd â chamau gweithredu manwl a meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddeilliannau disgyblion
- arweinwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd ac yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Parhau i gynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion

A2 Rhannu arferion gorau'r addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion

A3 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn ddysgwyr mwy annibynnol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau'r ysgol yn briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu o'u man cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau meddwl yn gadarn ac yn galw i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn dangos diddordeb amlwg yn eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Trwy'r Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn siaradwyr hyderus ac maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r modd clir y mae'r disgyblion ieuengaf yn trafod eu penblwyddi a misoedd y flwyddyn ymysg ei gilydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn sgwrsio am eu gwaith yn aeddfed ac yn hyderus yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyfleu eu syniadau yn glir, gan roi sylw da i'r hyn sydd gan eraill i ddweud, er enghraifft wrth gyflwyno areithiau cynhwysfawr am yr Undeb Ewropeaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Gallant drafod ac ymateb i gwestiynau yn ymwneud â chynnwys llyfrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn darllen geiriau cyfarwydd yn gywir gan wneud defnydd da o'u llais i gynnal diddordeb y gwrandäwr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn glir ac yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau, maent yn dangos dealltwriaeth aeddfed o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Gall y rhan fwyaf gywain gwybodaeth am bwnc penodol o ffynonellau amrywiol, a'u defnyddio'n briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am yr Almaen neu eu hardal leol. Mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn deall amrywiaeth o destunau yn glir, gan ddewis a dethol y prif bwyntiau, ac mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r testunau drwy dynnu casgliadau rhesymol.

Mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ffurfio llythrennau a geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ysgrifennu am fywyd Betsi Cadwaladr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau. Maent yn creu brawddegau adeiladol yn effeithiol, yn atalnodi'n briodol ac yn defnyddio ystod o eirfa gyfoethog, er enghraifft wrth ail adrodd stori'r geni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn effeithiol at wahanol ddibenion, yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ddwyn cefnogaeth i fewnfudwyr sy'n dianc rhag rhyfel. Mae bron pob disgybl yn ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg a'r Saesneg ag y maent mewn gwersi iaith. Mae'r mwyafrif yn cynllunio a drafftio'u gwaith yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae llawer yn creu darnau estynedig graenus, er enghraifft cofiant peilot yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae mwyafrif o'r disgyblion uwch eu gallu yn defnyddio terminoleg ymestynnol yn hyderus i ddadansoddi canlyniadau arbrawf gwyddonol wrth ollwng cerbyd a mesur y pellter a deithiwyd.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn gwneud cynnydd cyson wrth eu caffael mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus wrth ymdrin â thasgau ymarferol, er enghraifft wrth bwyso cynhwysion ar gyfer coginio. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo'r elw mewn prosiect yn seiliedig ar fananas masnach deg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf gymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo mesuriadau ac onglau'r awyren 'Spitfire'. Mae'r mwyafrif yn datrys problemau rhif yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyfrifo sut i storio bomiau a bwledi adeg y rhyfel yn chwarel Dinorwig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o feddalwedd ac apiau i gefnogi eu gwaith llythrennedd wrth farcio ac ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn dechrau cyflwyno graffiau yn gywir ac yn annibynnol er mwyn cofnodi eu hoff lenwad mewn crempog. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, er enghraifft wrth iddynt gasglu a chyflwyno bas data i gymharu cyflogau pêl-droedwyr o gymharu â'u taldra. Mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol drwy glipiau fideo i esbonio eu gwaith ymchwil ar nodweddion magnetau. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o daenlenni syml er mwyn trefnu data yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth eang a chadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio, ond wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad y disgyblion ar ddeilliant 6 wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf mewn llythrennedd a rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol dros yr un cyfnod.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg wedi bod yn gyson yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mae'r perfformiad wedi bod yn gyson yn yr 50% is am dair blynedd, gan godi i'r 50% uwch yn 2016. Mae'r tuedd yn gyffredinol ar i fyny ym mherfformiad yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth dros bedair blynedd ac wedi gosod yr ysgol yn yr 25% uchaf yn 2016. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefelau uwch na'r disgwyl yn dangos cynnydd cyffredinol yn y pedwar pwnc craidd. Mae hyn wedi gosod yr ysgol yn gyson uwch na'r canolrif ac yn aml yn y 25% uchaf ar hyd tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol.

Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad merched o'u cymharu â'r bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig nac uwch. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw'r bechgyn ar y cyfan yn perfformio cystal â'r merched ar y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg na'r Saesneg ac mae'r merched yn perfformio'n gyson well ar y lefelau uwch yn y pedwar pwnc craidd.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn lled isel, felly nid yw cymharu eu perfformiad a pherfformiad disgyblion eraill yn gwbl ddibynadwy. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth rhwng perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion o'u cymharu â'r gweddill ar y deilliannau na'r lefelau disgwyliedig. Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cyfoedion ar y deilliannau na'r lefelau uwch na'r disgwyl.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn ymroi'n dda i'w tasgau. Dangosant barch at oedolion a gofal a chonsyrn arbennig tuag at ei gilydd. Mae ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned hapus a chyfeillgar yn bodoli ar draws yr ysgol a gwna hyn gyfraniad gwerthfawr at greu ethos sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac o gadw'n heini. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol, er enghraifft y clwb nofio amser cinio.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae cyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi codi'n raddol. Fodd bynnag, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb disgyblion yn parhau'n is na'r canolrif dros y cyfnod hwn.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn chwarae rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac maent wedi cyflwyno nifer o weithgareddau priodol sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion. Un enghraifft o'r gwaith yw'r ffordd y mae disgyblion yn cynllunio a darparu gweithgareddau penodol i'w cyd-ddisgyblion yn ystod amser chwarae, ac yn cynllunio a gosod ardaloedd pendant i weithgareddau corfforol. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog, sy'n aml yn seiliedig ar syniadau disgyblion, ac sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol.

Mae staff yn cymhwyso gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn fwriadus i'w cynlluniau gwaith er mwyn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd dros gyfnod. Maent yn darparu rhaglenni arbenigol ac effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu penodol pan yn briodol.

Mae'r staff yn cynllunio'n llwyddiannus i sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad priodol i weithgareddau sy'n datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ar draws y cwricwlwm yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol.  Mae'r ysgol yn gweithredu Siarter Iaith Gwynedd yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.  Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddysgu am Gymru ac agweddau o'i hanes, ei daearyddiaeth a'i diwylliant yn llwyddiannus.  Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ehangu eu gwybodaeth o'u cymuned leol a'r ardal ehangach trwy fynychu teithiau priodol â mannau fel yr amgueddfa lechi, Castell Harlech a chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd.  Maent yn trefnu gweithdai gan artistiaid lleol sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o gelfyddyd Cymru ac yn annog y disgyblion i gystadlu'n rheolaidd mewn eisteddfodau, a chymryd rhan mewn cyngherddau a gweithgareddau celfyddydol eraill.

Mae'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â phrosiectau eco ac ysgolion iach yn treiddio'n naturiol trwy nifer o feysydd y cwricwlwm ac yn annog y disgyblion i ddysgu am ddatblygiadau cynaliadwy yn effeithiol.  O ganlyniad, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff.  Mae gweithgareddau elusennol ac astudiaethau sy'n ymwneud â masnach deg yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu dealltwriaeth gadarn y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu:  Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol.  Mae gan fwyafrif yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir ag elfennau dysgu blaenorol.  Mae'r rhan fwyaf yn cynllunio tasgau diddorol i'r disgyblion, ac yn gwneud defnydd medrus o offer ac adnoddau priodol i wneud y dysgu'n gyffrous iddynt.  Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng yr athrawon, y cynorthwywyr a'r disgyblion ym mhob dosbarth.  O ganlyniad, mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu.  Defnyddir anogaeth a chanmoliaeth yn llwyddiannus i reoli ymddygiad ac mae hyn yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar trwy'r ysgol.  Yn yr ychydig enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.  Mae athrawon mewn ychydig o'r dosbarthiadau yn cyfarwyddo'r gweithgareddau yn ormodol ac yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.  Mae'r holl staff yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio dulliau holi a chwestiynu effeithiol yn rheolaidd.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion ar draws yr ysgol.  Maent yn marcio'u gwaith yn rheolaidd ac, mewn llawer o'r llyfrau, maent yn ysgrifennu sylwadau adeiladol i'r disgyblion ar sut y gallant wella'u gwaith.  Yn y dosbarthiadau lle mae'r arfer hon yn fwyaf effeithiol, mae'r disgyblion yn deall yn glir yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella'u gwaith.  Fodd bynnag, nid yw'r arferion gorau hyn yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion ymhob dosbarth yn deall yn ddigon clir yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella'u gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i asesu, cymedroli ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn cynorthwyo athrawon i ddeall yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddeall ynghyd â'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud i ddatblygu mewn meysydd penodol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sy'n cyfrannu'n dda at wella'u safonau.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sy'n rhoi blaenoriaeth gref i les a diogelwch disgyblion. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion fynegi barn ar sut i wella amgylchedd yr ysgol a'i gwneud yn fwy diogel. Caiff datblygiad ysbrydol moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy weithgareddau cyd-addoli rheolaidd ynghyd â chyfleoedd iddynt fyfyrio'n dawel ar faterion cyfoes sy'n berthnasol iddynt.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol effeithiol iawn i ddiwallu anghenion penodol y rhan fwyaf o'i disgyblion. Mae ganddi gysylltiadau cryf â nifer o asiantaethau arbenigol ac mae staff yn gwneud defnydd llwyddiannus ohonynt. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n effeithiol â'r seicolegydd addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd i sicrhau bod disgyblion ag anghenion penodol yn cael mynediad llawn i gefnogaeth briodol pan fo'i angen. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion ac i adnabod yn gynnar unrhyw unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn darparu rhaglenni ymyrraeth effeithiol iawn i gefnogi'r disgyblion hyn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt yn eu medrau cymdeithasol, rhifedd a llythrennedd wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae tîm o gynorthwywyr dysgu yn cefnogi'r gwaith hwn yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau datblygu unigol sy'n blentyn-ganolog i'r disgyblion sydd eu hangen, ac yn eu diweddaru'n rheolaidd ar y cyd â'r disgyblion a'r rhieni. O ganlyniad, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos hapus, prysur a Chymreig yn bodoli yn yr ysgol, sy'n annog parch tuag at blant ac oedolion. Mae'r gymuned yn un fywiog gydag awyrgylch deuluol, gynnes sy'n annog pob disgybl i gymryd cyfrifoldeb ac i drin pobl eraill yn deg. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth.

Gwneir defnydd da o'r adeilad a'r tir o gwmpas yr ysgol i hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac i annog y disgyblion i gadw'n iach a bod yn gynaliadwy. Mae'r adeilad yn cynnig digon o le ar gyfer nifer y disgyblion ac mae'r safle yn ddiogel a chadarn. Mae'r tir a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus. Mae

arddangosfeydd deniadol yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn cefnogi'r addysgu, yn arddangos gwaith y disgyblion yn effeithiol, ac yn dathlu eu llwyddiannau yn briodol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau o ansawdd uchel ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r buddsoddiad diweddar a wnaed mewn adnoddau i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r ysgol, ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer ei gwella. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli a gweddill y staff yn cefnogi'r pennaeth yn fedrus ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda. O dan arweiniad y pennaeth, mae'r staff yn barod iawn i rannu arbenigedd ymysg ei gilydd, yn ogystal â gydag athrawon ac ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt.

Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella ac ar faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r addysgu a'r dysgu. Mae gan y staff swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r arweinyddiaeth wedi ei dosrannu'n effeithiol iawn ymhlith y staff. Mae'r cydlynwyr pwnc yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau penodol o waith yr ysgol, ac mae aelodau o'r staff cynorthwyol yn cyfrannu'n sylweddol i wella safonau a lles grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, maent yn cymryd rôl weithredol wrth ddatblygu'r ysgol ymhellach er mwyn bodloni'r blaenoriaethau gwella.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi datblygiad staff yn dda ac yn sicrhau atebolrwydd teg tuag at fodloni'r blaenoriaethau gwella. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol, er enghraifft drwy gyflwyno'r Siarter Iaith yn llwyddiannus i hybu'r Gymraeg a gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth fuddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn gwerthuso effeithiolrwydd yr ysgol wrth ymweld i fonitro'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion, er enghraifft wrth gynyddu eu dealltwriaeth o faterion cwricwlaidd drwy gwrdd ag arweinwyr pwnc, derbyn cyflwyniadau a chwblhau adroddiadau arfarnol. Mae ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant ac yn ystyried gwybodaeth drwyadl am berfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg. O ganlyniad, mae eu rôl o ran cymell a dwyn yr ysgol i gyfrif fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu wedi gwreiddio'n llwyr ym mywyd yr ysgol ac mae ei gweithdrefnau cadarn yn sicrhau bod gan arweinwyr a'r staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r cryfderau a mwyafrif y meysydd sydd angen eu gwella. Wrth gasglu tystiolaeth uniongyrchol eang, mae'r broses hunanarfarnu yn golygu bod yr ysgol yn adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn barhaus ac yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion yn fanwl iawn, arfarniadau monitro trylwyr, craffu ar lyfrau gwaith y disgyblion, ystyried barn reolaidd y rhieni a'r llywodraethwyr ac adolygiadau tymhorol gan ymgynghorwyr addysgol allanol.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn ddogfen cyfeirio ddefnyddiol i gofnodi cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae cyswllt amlwg yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn nodi amcanion penodol, ynghyd â chamau gweithredu manwl, a meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd ac yn effeithiol, gan deilwra’r gweithgaredd gwella neu’r adnoddau yn synhwyrol yn ystod y flwyddyn, petai angen.

Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, er enghraifft wrth wella safonau ysgrifennu. Er hynny, mae ychydig o argymhellion yr arolygiad diwethaf yn parhau yn elfennau sydd angen sylw, er enghraifft yr angen i wella presenoldeb a rhannu’r arfer orau sy’n bodoli o fewn yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n effeithiol. Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu’n briodol â rhieni trwy ystod o wahanol ffyrdd, sy’n sicrhau bod ganddynt wybodaeth berthnasol yn barhaus. Mae cyfeillion yr ysgol yn weithgar ac yn codi symiau sylweddol yn flynyddol i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau ychwanegol er budd y disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar maent wedi cyfrannu tuag at offer TGCh buddiol, sy’n ymestyn profiadau dysgu a chyraeddiadau'r disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol iawn gyda nifer o ysgolion cynradd lleol. Mae gwaith cymedroli effeithiol yn digwydd yn ogystal â rhannu profiadau er mwyn datblygu staff a gwella’r ddarpariaeth. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae cydweithio ar brosiect ysgolion creadigol gydag ysgol leol arall yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau llythrennedd y disgyblion trwy ddefnyddio TGCh. Mae’r ysgol yn defnyddio adnoddau ar y cyd ag ysgolion eraill yn effeithiol, er enghraifft wrth drefnu a chynnal hyfforddiant penodol er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae’r pennaeth, y staff a’r llywodraethwyr yn rhannu eu harfer dda yn effeithiol iawn gydag ysgolion eraill ac yn elwa o hynny. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu i’r ysgol arwain grŵp o benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol o blith ysgolion lleol i ddatblygu llawlyfr i gefnogi rôl llywodraethwyr wrth

hunanarfarnu a dwyn ysgolion i gyfrif. O ganlyniad, mae medrau'r llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd a'r cylch meithrin lleol yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae disgyblion yn elwa o ymweliadau a gweithgareddau cyson, sy'n rhan greiddiol o'r cynlluniau trosglwyddo. Mae'r berthynas weithio agos sy'n bodoli rhwng arweinwyr a staff yr ysgol a'r cylch meithrin wedi arwain at wella safonau'r disgyblion a chreu awyrgylch ddysgu ddeniadol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod o asiantaethau allanol i gryfhau lles y disgyblion. Er enghraifft, gwneir defnydd da o wasanaethau'r awdurdod lleol, y gwasanaethau iechyd, swyddogion lles, athrawon arbenigol a'r heddlu i gefnogi lles y disgyblion. Mae perthynas glòs iawn yn bodoli rhwng yr ysgol, y gwasanaeth iechyd a'r ysgol arbennig leol yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwallu anghenion penodol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gyfleusterau lleol i hybu iechyd a lles a medrau cymdeithasol ei disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'r ganolfan hamdden a chaeau chwarae'r dref ar gyfer gwersi a chystadlaethau chwaraeon. Mae cysylltiadau buddiol yn bodoli gyda busnesau lleol sy'n cyfrannu'n dda at feithrin dealltwriaeth disgyblion o fyd busnes a gwaith, er enghraifft trwy ymweld â'r archfarchnad leol a manteisio ar eu cyswllt gyda'r rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff profiadol â chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus i gefnogi'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff cymorth yn gaffaeliad i'r ysgol ac yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i'r disgyblion a'r athrawon. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o arbenigedd y staff i godi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion ac er mwyn cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae prosesau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol. Mae rhwydweithiau llwyddiannus yn bodoli gydag ysgolion eraill sy'n cynnig cyfleoedd i athrawon a cymorthyddion dosbarth ddatblygu'n broffesiynol ac er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth a rhannu arfer dda. Er enghraifft, mae athrawon yn cyfrannu'n fuddiol i rwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad eang o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd

Disgyblion, er enghraifft trwy gyflogi cymhorthydd i weithio gyda disgyblion i wella'u medrau personol a chymdeithasol, yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u hunanddelwedd.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612104 - Ysgol Eifion Wyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 206 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 30 | 24 | 27 | 24 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.3 | 95.8 | 92.6 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 24 | 27 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 95.8 | 92.6 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.7 | 45.8 | 51.9 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 24 | 27 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.7 | 95.8 | 92.6 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.0 | 41.7 | 51.9 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 30 | 24 | 27 | 24 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 95.8 | 92.6 | 95.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 70.0 | 54.2 | 59.3 | 79.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612104 - Ysgol Eifion Wyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 206 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 28 | 31 | 27 | 25 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.1 | 87.1 | 96.3 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 31 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 90.3 | 92.6 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 48.4 | 51.9 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 31 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 90.3 | 96.3 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.1 | 45.2 | 48.1 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 31 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.1 | 93.5 | 96.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 48.4 | 48.1 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 31 | 27 | 25 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 96.8 | 96.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.1 | 48.4 | 48.1 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 91<br>93% | 7<br>7% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 98 | 94<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 97 | 93<br>96% | 4<br>4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 93<br>95% | 5<br>5% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 94<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 94<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 96<br>98% | 2<br>2% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 97<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 96 | 77<br>80% | 19<br>20% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 97 | 77<br>79% | 20<br>21% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 48 | 25 | 20 | 0 | 1 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 42% | 0% | 2% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 48 | 31 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 48 | 28 | 17 | 2 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 58% | 35% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 48 | 28 | 16 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 33% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 48 | 17 | 21 | 3 | 0 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 35% | 44% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 48 | 21 | 23 | 1 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 44% | 48% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 48 | 25 | 21 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 48 | 18 | 23 | 4 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 48% | 8% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 48 | 17 | 20 | 3 | 1 | 7 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 35% | 42% | 6% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 48 | 17 | 29 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 35% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 47 | 26 | 20 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 55% | 43% | 2% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 48 | 19 | 20 | 4 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 40% | 42% | 8% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 48 | 14 | 25 | 7 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 29% | 52% | 15% | 2% | | |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 48 | 21 | 23 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 44% | 48% | 6% | 2% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 48 | 16 | 22 | 4 | 1 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 33% | 46% | 8% | 2% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 48 | 21 | 24 | 2 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 44% | 50% | 4% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 47 | 13 | 20 | 2 | 1 | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 28% | 43% | 4% | 2% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 48 | 17 | 22 | 6 | 0 | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 46% | 12% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 48 | 24 | 19 | 2 | 0 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 50% | 40% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Vanessa Bowen | Arolygydd Cofnodol |
| Tony Bate | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Anita Tucknutt | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carys Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.